

Y GWASANAETH ASESU REFENIW A BUDD-DALIADAU

DOGFEN POLISI BUDD-DALIADAU



www.conwy.gov.uk/benefits



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer cymorth a
chefnogaeth**

**Conwy County, the right environment for help and
support**

| Cynnwys | Tudalen |
|--|----------------|
| 1. Rhagarweiniad | 3 |
| 2. Gwasanaeth Llawn y Credyd Cynhwysol | 3 |
| 3. Polisi Gofal Cwsmeriaid | 4 |
| 3.1 Cefndir | |
| 3.2 Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| 4. Polisi Gordaliadau Budd-dal Tai | 5 |
| 4.1 Cefndir | |
| 4.2 Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| 5. Polisi Diddymu Gordaliadau Budd-dal Tai | 6 |
| 5.1 Cefndir | |
| 5.2 Beth yn union yw 'Diddymu'? | |
| 5.3 Sut i wneud cais i ddiddymu dyled Gordal Budd-dal Tai a sut y cewch chi wybod am y penderfyniad. | |
| 6. Addasu Polisi'r Cynllun Budd-daliadau | 7 |
| 6.1 Cefndir | |
| 6.2 Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| 7. Polisi Diogelu ar gyfer y Lwfans Tai Lleol | 7-11 |
| 7.1 Cefndir | |
| 7.2 Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| 7.3 Darpariaeth ar gyfer talu Budd-dal Tai Uniongyrchol (Lwfans Tai Lleol) | |
| 8. Taliadau Dewisol Tai | 11-17 |
| 8.1 Cefndir | |
| 8.2 Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| 8.3 Hawlio Taliad Dewisol Tai | |
| 8.4 Proses Benderfynu Ceisiadau am Daliadau Dewisol Tai a'r drefn Hysbysu/Apelio | |
| 8.5 Cyfnodau Dyfarnu/Ceisiadau eildro/Ôl-ddyddio | |
| 8.6 Penderfynu a ddylid dyfarnu Taliad Dewisol Tai neu beidio | |
| 8.7 Taliadau Dewisol Tai ar gyfer costau untro fel talu rhent ymlaen llaw/blaendal/costau symud allan ac eraill. | |
| 8.8 Casgliad | |

Atodiadau

Atodiad 1 – Grwpiau â Blaenoriaeth

Atodiad 2 – Taliadau Untro ar gyfer Grwpiau â Blaenoriaeth

Atodiad 3 – Gwybodaeth ynglŷn ag Annibynyddion

1. RHAGARWEINIAD

Mae Budd-daliadau Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor yn elfennau pwysig o'r cymorth a ddarperir gydag arian cyhoeddus i bobl sy'n derbyn incwm isel. Mae'r budd-daliadau hyn yn hanfodol o ran rhoi cymorth ariannol i rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. Mae'r Budd-dal Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor yn arwyddocaol am nifer o resymau:

- Swm sylweddol yr arian o dan sylw – dyfarnwyd oddeutu £35 miliwn o Fudd-daliadau Tai yn 2017/18 a £9.3 miliwn o Ostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- Nifer fawr y bobl sy'n dibynnu ar y cymorth hwn i dalu eu rhent a threth y cyngor.
- Y posibilrwydd o risg fawr o dwyll a gwallau yn y system.

Awdurdodau Lleol sy'n gweinyddu'r system ar gyfer Budd-daliadau Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor. Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n pennu'r rheolau ynglŷn â phwy sy'n gymwys i dderbyn Budd-dal Tai. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r rheolau ynglŷn â phwy sy'n gymwys am Ostyngiad y Dreth Gyngor. Mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn rhoi cymhorthdal at gostau'r Cynghorau wrth weinyddu Budd-daliadau Tai, ac mae Llywodraeth Cymru'n gwneud yr un fath ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor.

2. GWASANAETH LLAWN Y CREDYD CYNHWYSOL

Y Credyd Cynhwysol yw'r un taliad misol y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n ei dalu gan amlaf yn syth i'r ymgeisydd, ac yn y pen draw bydd yn disodli'r Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant ar gyfer pobl o oedran gweithio. Mae yno rai eithriadau, felly cysylltwch â'r Swyddfa Budd-daliadau ar 01492 576491 am fanylion.

Mae Gwasanaeth Llawn y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n raddol yn genedlaethol (y tu hwnt i Lundain) ers mis Mai 2016. Fe'i cyflwynwyd i i breswylwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar -
11 Ebrill 2018 i bobl sy'n dod o dan Ganolfan Byd Gwaith y Rhyl
6 Mehefin 2018 i'r rhai sy'n dod o dan Ganolfannau Byd Gwaith Bae Colwyn a Llandudno.

Ers hynny bu modd i bobl hawlio'r Credyd Cynhwysol o'r newydd, gan gynnwys Costau Tai lle bo hynny'n briodol, ac nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n talu'r Budd-dal Tai mwyach i:-

Bobl sengl gyda phlant neu beidio
Cyplau *gyda phlant neu beidio
Pobl sy'n ddiwaith, gan gynnwys y rhai hynny sy'n sâl
Pobl sy'n gweithio, gan gynnwys pobl hunangyflogedig.

* Pan wneir hawliad newydd, bydd y rhai hynny sydd â mwy na dau o blant dibynnol yn dal i hawlio budd-daliadau fel o'r blaen, gan gynnwys y Budd-dal Tai, tan fis Chwefror 2019 pan allant hawlio'r Credyd Cynhwysol.

Gallai newidiadau penodol mewn amgylchiadau olygu y bydd yn rhaid i rywun sy'n derbyn Budd-dal Tai gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hawlio'r Credyd Cynhwysol, gan gynnwys eu Costau Tai.

Bydd cwsmeriaid o oedran gwaith sy'n derbyn Budd-dal Tai gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn symud i'r Credyd Cynhwysol gyda Chostau Tai erbyn 2023.

3. POLISI GOFAL CWSMERIAID

3.1 Cefndir

Mae Gofal Cwsmeriaid yn rhan bwysig iawn o'r Uned Budd-daliadau.

3.2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ein nod yw:

- Sicrhau bod ein desgiau ymholiadau ym Mwrdeistref Sirol Conwy, lle gall aelodau o'r cyhoedd alw heibio am wasanaeth wyneb yn wyneb, ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 9am tan 5pm ac ar ddydd Gwener o 9am tan 4.45pm.
- Sicrhau bod gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Budd-daliadau ddigon o staff ar yr adegau hyn, a bod pob gweithiwr wedi cael hyfforddiant mewn gofal cwsmer a dulliau cyfweld.
- Adrodd ynghylch nifer yr ymholiadau fel rhan o Adolygiad o Berfformiad y Gwasanaeth.
- Rhoi derbynneb i bob cwsmer **sy'n ymweld â'r swyddfa** sy'n esbonio pa gamau gweithredu y gellir eu disgwyl a pha bryd fyddant yn digwydd, ac yn dweud â phwy i gysylltu os oes problem.
- Sicrhau ein bod yn delio â chwsmeriaid ymhen 15 munud wedi iddynt gyrraedd.
- Darparu gwasanaeth Swyddog Ymweld ar gyfer cwsmeriaid na fedrant adael eu cartrefi, fel yr henoed neu bobl wael eu hiechyd.
- Ateb ymholiadau cwsmeriaid dros y ffôn yn brydlon, a rhoi cyngor doeth mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar.
- Rhoi cyngor ynglŷn â Budd-daliadau Tai, Gostyngiad y Dreth Gyngor, Budd-daliadau Addysg, Prydau Ysgol am Ddim a Grantiau Gwisg Ysgol.
- Darparu cymorth cynhwysfawr i gwsmeriaid y mae arnynt angen cymorth i hawlio'r Credyd Cynhwysol ar-lein, a'u helpu i gadw trefn ar eu cyfrifon. Hefyd, darparu cymorth gyda chyllidebau personol i'r rhai hynny sydd arnynt angen y gwasanaeth mewn cysylltiad â'u hawliadau Credyd Cynhwysol. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu'r gwasanaeth hwn tan 31/03/2019. O fis Ebrill 2019 ymlaen y darparwr fydd Cyngor ar Bopeth, yn unol â phenderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae croeso i gwsmeriaid wneud sylwadau am y gwasanaeth a ddarparwn drwy fynd i www.conwy.gov.uk/garb/gwerthusorgwasanaeth

4. POLISI GORDALIADAU BUDD-DAL TAI

4.1 Cefndir

Fel arfer mae gordaliadau Budd-dal Tai'n digwydd oherwydd un o'r rhesymau canlynol:

(a) Gwall gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mewn achos fel hyn bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau, Canolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Pensiynau wedi gwneud camgymeriad gan achosi gordaliad.

(b) Gwall gan y Sawl sy'n Hawlio

Mewn achos fel hyn mae'n rhaid bod y sy'n hawlio heb fwriadu cael budd-dal drwy ryw weithred neu ddiffyg gweithredu bwriadol. Gallai hyn gynnwys cynnydd bychan mewn incwm lle byddai'n rhesymol i'r sawl sy'n hawlio dybio na fyddai hynny'n effeithio ar y budd-dal. Fel arfer mae modd adennill y swm a ordalwyd.

(c) Gwall gan yr Awdurdod Lleol

Mewn achos fel hyn bydd y Cyngor wedi methu â gweithredu ar sail gwybodaeth a dderbyniwyd, gan achosi gordaliad.

(d) Twyll

Mae Gordaliad Twyllodrus yn digwydd pan mae datganiad neu gamddehongliad twyllodrus, neu fethu â datgelu rhywbeth yn fwriadol, yn achosi gordaliad. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Methu â datgelu cynnydd mewn cyfalaf, neu gyfalaf ychwanegol.
- Yr ymgeisydd yn methu â hysbysu'r Cyngor o newidiadau ym mudd-dal yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- Yr ymgeisydd yn methu â hysbysu'r Cyngor o gynnydd mewn incwm.
- Yr ymgeisydd yn methu â hysbysu'r Cyngor o adael tŷ, ac yn dal i gasglu taliadau Budd-dal Tai.
- Tenantiaethau dyfeisiedig.
- Newidiadau yn y teulu, er enghraifft, annibynnydd yn ymuno â'r aelwyd heb hysbysu'r Cyngor.
- Yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu o'r hawl i fudd-daliadau eraill, ond yn methu â rhoi gwybod i'r Cyngor.
- Peidio â hysbysu o newidiadau yn incwm annibynnydd.

4.2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gwneir adennill gordaliadau fel arfer mewn un o bedair ffordd. Y rhain yw:

- Cyflwyno anfoneb yn gofyn am ad-daliad.
- Didynnu'r arian o'r Budd-dal Tai.

- Didynnu'r arian o fudd-daliadau eraill.
- Didynnu'r arian o gyflog y sawl sy'n hawlio – Atafaelu Enillion yn Uniongyrchol.

Gall pobl sy'n hawlio'r Budd-dal Tai ddewis talu gordaliadau'n ôl fesul dipyn.

Mae gordaliadau Budd-dal Tai fel arfer yn codi yn enw'r sawl a wnaeth gamgymeriad i achosi'r gordaliad.

Ceir hawl ffurfiol i apelio o dan y Rheoliadau Budd-daliadau pan hysbysir y cwsmer neu drydydd parti o ordaliad.

5. POLISI DIDDYMU GORDALIADAU BUDD-DAL TAI

5.1 CEFNDIR

Polisi'r Cyngor yw adennill gordaliadau budd-dal lle bynnag y bo modd.

Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, bydd yn briodol i ystyried diddymu dyledion. Mae'r gyfraith yn dweud y gellir adennill pob gordaliad (ac eithrio rhai gwallau swyddogol penodol) ond nid yw'n dweud bod yn rhaid gwneud hynny. Mae Awdurdodau Lleol yn rhydd i benderfynu a ddylid adennill gordaliad.

Mae'r Rheoliadau Budd-daliadau'n rhoi hawl ffurfiol i apelio pan hysbysir cwsmer neu drydydd parti o ordaliad. Mae'r weithdrefn ar gyfer diddymu gordaliad ar wahân i'r hawl ffurfiol i apelio, ac fel arfer bydd yn golygu ystyried nifer o ffactorau eraill na fyddai'n berthnasol yn y drefn apelio.

Nid oes gan y person dan sylw hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i adennill gordaliad. (Gall rhywun ofyn i'r Cyngor beidio ag adennill gordaliad, ond nid oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wneud hynny.) Nid oes hawl i apelio chwaith yn erbyn penderfyniad i beidio â diddymu gordaliad.

5.2 BETH YN UNION YW 'DIDDYMU'?

Polisi'r Cyngor yw adennill gordaliadau budd-dal lle bynnag y bo modd.

Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, bydd yn briodol i beidio ag adennill y gordaliad, ac i ystyried diddymu'r ddyled.

Diddymu Dewisol – y sail arferol ar gyfer ystyried diddymu gordaliad yn ddewisol yw caledi neu resymau ariannol. Gallai cyflwr meddygol y sawl sy'n hawlio neu'r teulu fod yn berthnasol hefyd. Ni all diddymu dewisol ddilyn trefn haearnaidd. Mae'n rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau.

5.3 SUT I WNEUD CAIS I DDIDDYMU DYLED OHERWYDD GORDAL BUDD-DAL TAI, A SUT Y CEWCH CHI WYBOD AM Y PENDERFYNIAD

Fel arfer mae'n rhaid gwneud cais ysgrifenedig i ddiddymu Gordal Budd-dal Tai, a dylai'r cwsmer neu gynrychiolydd a awdurdodwyd ei lofnodi a'i anfon i'r Swyddfa Gordaliadau Budd-dal Tai, Blwch Post 1, CONWY LL30 9GN, neu fynd â'r cais i Swyddfa Fudd-daliadau Leol.

Ewch i wefan y Cyngor i weld [rhestr lawn o'n swyddfeydd a'u hamserau agor](#).

Fe gewch wybod am ganlyniad eich cais yn ysgrifenedig ymhen ugain diwrnod gwaith.

6. ADDASU POLISI'R CYNLLUN BUDD-DALIADAU

6.1 Cefndir

Gall unrhyw Awdurdod addasu'r Cynllun Budd-daliadau Tai mewn perthynas â Phensiynau Rhyfel.

6.2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r Cyngor yn diystyru 100% o'r incwm o Bensiwn Anabledd Rhyfel neu Bensiwn Rhyfel Gweddwr wrth wneud asesiad ar gyfer Budd-dal Tai.

7. POLISI DIOGELU AR GYFER Y LWFANS TAI LLEOL

7.1 Cefndir

Mae cynllun y Lwfans Tai Lleol yn effeithio ar y rhan helaeth o denantiaid sector preifat sy'n derbyn Budd-dal Tai, ac eithrio'r canlynol –

- Tenantiaethau Cymdeithas Tai
- Carafanau/cartrefi symudol
- Rhenti safle
- Angorfeydd
- Cychod preswyl
- Hosteli
- Tenantiaethau â nifer o ymddiriedolaethau elusenol
- Tenantiaethau â phrydau a gweini sylweddol.

Yn y rhan helaeth o achosion Budd-dal Tai sy'n berthnasol i'r Lwfans Tai Lleol, gwneir y taliad yn uniongyrchol i'r sawl sy'n hawlio.

Mewn rhai achosion mae'n rhaid talu'r Lwfans Tai Lleol yn syth i'r landlord, neu gall y Cyngor benderfynu gwneud hynny.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r materion y mae'r Swyddfa Fudd-daliadau'n eu hystyried wrth benderfynu a ddylid talu Lwfans Tai Lleol yn syth i'r landlord.

7.2 Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Nod y polisi yw cyflawni'r amcanion canlynol:

- Diogelu tenantiaid agored i niwed sy'n ei chael yn anodd cadw trefn ar bethau.
- Atal tenantiaid rhag mynd ar ei hôl hi gyda'u rhent ac wynebu cael eu troi allan.
- Sicrhau bod penderfyniadau'n deg ac yn gyson.
- Darparu trefn dryloyw a syml ar gyfer gwneud cais i dalu'r landlord yn uniongyrchol.

Nid yw'r polisi wedi'i lunio er mwyn:

- I landlordiaid ei ddefnyddio er mwyn trechu amcanion y cynllun Lwfans Tai Lleol.
- Polisi'r Cyngor hwn – Taliadau Uniongyrchol Gorfodol i'r Landlord

Mae'n rhaid talu'r Lwfans Tai Lleol i'r landlord yn uniongyrchol:

- Os yw'r tenant wyth wythnos neu fwy ar ei hôl hi gyda'r rhent.
- Os yw'r tenant yn cael ôl-ddyledion rhent wedi'u didynnu o daliadau Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith.
- Os yw'r tenant fwy nag wyth wythnos ar ei hôl hi gyda'r rhent, gall y landlord ysgrifennu i'r Swyddfa Fudd-daliadau i roi'r manylion llawn a gofyn am dalu unrhyw daliadau Budd-dal Tai yn y dyfodol yn syth iddynt hwy.
- Serch hynny, anogir landlordiaid i beidio ag oedi cyn cysylltu â'r Swyddfa Fudd-daliadau os oes problem, i roi gwybod cyn gynted â phosib os yw'r tenant ar ei hôl hi gyda'r rhent (ar ôl pythefnos o beidio â thalu rhent). Bydd hynny'n galluogi'r Swyddfa Fudd-daliadau i gysylltu â'r tenant yn gynnar i holi beth sydd o'i le.

Taliadau Uniongyrchol Dewisol i'r Landlord

Mae'r Cyngor hefyd yn rhydd i ddewis talu'r Lwfans Tai Lleol yn syth i'r landlord os oes tystiolaeth y byddai'r tenant yn ei chael yn anodd cadw trefn ar ei arian, neu'n **annhebygol o dalu'r rhent**.

Os byddai'r tenant yn **annhebygol o dalu'r rhent**, byddai'r Swyddfa Fudd-daliadau'n ystyried -

- a oes gan y tenant ôl-ddyledion rhent, ac wedi methu â thalu rhent yn gyson?
- a yw'r tenant wedi ffoi o eiddo yn y gorffennol heb dalu'r rhent?
- a oes gan y tenant ddyledion lluosog neu hanes o fethu â chadw trefn ar ei arian?

Pe byddai'r tenant yn **methu â thalu'r rhent** oherwydd trafferth yn cadw trefn ar ei arian, gellid penderfynu bod y tenant yn 'agored i niwed'.

Pwy ellid eu hystyried yn agored i niwed?

Gallai fod sawl rheswm pam na fedr tenant gadw trefn ar ei arian. **Gallai** tenant 'agored i niwed' fod yn rhywun sydd:

- â dyledion difrifol
- wedi cael dyfarniad Llys Sirol yn eu herbyn yn ddiweddar
- yn fethdalwr nas rhyddhawyd
- yn methu ag agor cyfrif gyda banc neu gymdeithas adeiladu
- yn cael rhywfaint o Gymhorthal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i dalu yn syth i'r cwmni nwy, trydan neu ddŵr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau
- yn cael cymorth gan Cefnogi Pobl
- yn cael cymorth gan elusen i'r digartref
- ag anawsterau dysgu
- â salwch sy'n eu hatal rhag cadw trefn ar faterion beunyddiol
- yn methu â darllen na siarad Saesneg
- yn gaeth i gyffuriau, alcohol neu gamblo
- yn ffoi rhag trais domestig
- yn gadael gofal
- yn gadael carchar
- yn ddigartref.

Nid yw'r rhestr uchod yn un cynhwysfawr, a gallai fod pethau eraill sy'n gwneud y tenant yn agored i niwed, neu a fedrai atal y tenant rhag cadw trefn ar bethau ac ymdopi â derbyn taliadau'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol.

Gwneud Cais

Gall y tenant, y landlord, Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol neu gynrychiolydd wneud cais i dalu'r Lwfans Tai Lleol yn syth i'r landlord.

Os oes rhywun yn credu bod tenant yn ei chael hi'n anodd rheoli ei arian, mae'r Swyddfa Fudd-daliadau'n argymhell y dylid annog y tenant i gysylltu â ni.

Er bod modd gwneud ymholiadau cychwynol drwy ffonio 01492 576491, bydd angen gwneud cais ffurfiol yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Budd-daliadau Tai, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN gan gynnwys tystiolaeth ategol.

Mae'r bobl sy'n medru darparu tystiolaeth yn cynnwys:

- y tenant
- ffrindiau a theulu'r tenant
- y landlord
- grwpiau lles (gan gynnwys ymgynghorwyr ariannol)
- Adrannau Gofal Cymdeithasol
- Swyddogion Prawf
- Canolfan Byd Gwaith
- Y Gwasanaeth Pensiwn
- Elusennau/mudiadau i'r digartref
- Timau Cefnogi Pobl
- Gweinyddwyr cynlluniau blaendal rhent lleol, swyddogion cyngori ar ddigartrefedd neu dai.

Eto, nid yw'r rhestr uchod yn un cynhwysfawr.

Gallai'r Swyddfa Budd-daliadau Tai dderbyn llythyr oddi wrth Weithiwr Cymdeithasol perthnasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gofyn am dalu'r Lwfans Tai Lleol yn syth i'r landlord. Os oes a wnelo'r llythyr â thenant agored i niwed (sy'n gleient i'r gweithiwr cymdeithasol dan sylw) sy'n methu â chadw trefn ar ei arian, dylid cwblhau llythyr safonol (a lunnir gan y Swyddfa Fudd-daliadau a'r Gweithiwr Cymdeithasol) a'i anfon i'r Swyddfa Budd-daliadau Tai yn ddiymdroi. Ni fydd yn ofynnol cynnwys unrhyw dystiolaeth ychwanegol mewn achosion fel hyn, a bydd penderfyniad yn dilyn ar ôl derbyn y llythyr.

Casglu Gwybodaeth a Thystiolaeth

Yna bydd y Swyddfa Budd-daliadau Tai yn ystyried y cais ysgrifenedig, a gallai ysgrifennu i ofyn am ragor o wybodaeth. Os na ddarperir y dystiolaeth ofynnol ymhen un mis calendr wedi gofyn amdano, gellid gwrthod y cais.

Mewn achos tenantiaid 'agored i niwed' (heb llythyr oddi wrth Weithiwr Cymdeithasol perthnasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), gellir trefnu cyfweiliad lle bydd y tenant yn dod i Swyddfa Leol Budd-daliadau Tai yn sir Conwy (p'un bynnag sydd fwyaf cyfleus i'r tenant) neu gellir ymweld â chartref y tenant os oes angen egluro rhywbeth neu ddarparu mwy o wybodaeth. Uwch-swyddog o'r Adain Budd-daliadau fydd yn cynnal y cyfweiliad. Bydd y Swyddfa Fudd-daliadau'n gweithio gyda'r tenant wrth wneud penderfyniad.

Gwneud Penderfyniad

Uwch-swyddog o'r Adain Budd-daliadau fydd yn penderfynu, a hynny ar sail yr holl wybodaeth a thystiolaeth a ddarperir. Mae dau wahanol benderfyniad ar gael i'r swyddog ymhob achos:

- Talu'r Lwfans Tai Lleol yn syth i'r landlord
- Talu'r Lwfans Tai Lleol yn syth i'r tenant.

Os yw'r Swyddfa Fudd-daliadau'n penderfynu talu'r Lwfans Tai Lleol i'r landlord a'i fod yn fwy na swm y rhent yn ôl y contract, rhennir y taliad rhwng y landlord a'r tenant fel bod y tenant yn cael gweddill y Lwfans.

Os yw'r landlord wedi darparu tystiolaeth o ôl-ddyledion rhent, gallai'r Swyddfa Fudd-daliadau dalu gweddill y Lwfans Tai Lleol yn syth i'r landlord hyd oni thelir yr ôl-ddyledion.

Hysbysu o'r penderfyniad

Bydd y tenant a/neu gynrychiolydd yn cael hysbysiad o'r penderfyniad yn ysgrifenedig, gan gynnwys:

- Y rheswm am y penderfyniad
- Os yw'n berthnasol, y penderfyniad o ran talu gweddill y Lwfans Tai Lleol i'r landlord
- Manylion yr hawl i Adolygiad/Apêl (os cymeradwyir cais am adolygiad, cynhelir hwnnw gan Swyddog gwahanol i'r un a benderfynodd yn y lle cyntaf)
- Manylion cyswllt.

Bydd y landlord yn cael hysbysiad o'r penderfyniad yn ysgrifenedig, ac yn cael gwybod y canlynol:

- Y penderfyniad o ran talu'r landlord yn uniongyrchol
- Os yw'r landlord wedi gofyn am dderbyn y Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol a bod y cais hwnnw wedi'i wrthod
- Os yw'n berthnasol, y penderfyniad o ran talu gweddill y Lwfans Tai Lleol i'r landlord
-
- Manylion yr hawl i Adolygiad/Apêl (os cymeradwyir cais am adolygiad, cynhelir hwnnw gan Swyddog gwahanol i'r un a benderfynodd yn y lle cyntaf)
- Manylion cyswllt.

Rhagor o wybodaeth

Efallai y bydd angen i'r Swyddfa Fudd-daliadau bennu dyddiad ar gyfer ailystyried yr achos yn y dyfodol mewn rhai amgylchiadau. Mae'n bosib y gofynnir am fwy o dystiolaeth, a gellid cynnal cyfweiliad i holi'r tenant ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf. Caiff y bobl berthnasol wybod os newidir y penderfyniad.

7.3 Darpariaeth ar gyfer Talu Budd-dal Tai Uniongyrchol (Lwfans Tai Lleol)

Cyflwynwyd y maen prawf hwn ym mis Ebrill 2011, ac ers hynny mae modd talu Budd-dal Tai yn syth i landlordiaid (**gyda chaniatâd y tenant**) o dan yr amgylchiadau canlynol -

- . pan mae'r landlord yn cytuno i ostwng rhent y tenant, a
- . phan mae'r rhent newydd yn hafal i ddegfed canradd ar hugain y Lwfans Tai Lleol neu'n is, neu'n swm y gall y tenant ei fforddio, a
- . phan mae gwneud hynny'n helpu'r tenant naill ai i aros yn yr eiddo neu gael tenantiaeth newydd.

Gellir talu Budd-dal Tai yn syth i'r landlord os yw'r Cyngor o'r farn y byddai hynny'n helpu'r tenant i gael tenantiaeth newydd neu gadw tenantiaeth bresennol.

Er mwyn sicrhau tenantiaeth neu'i chadw mae'n amlwg y dylai'r tenant fedru fforddio'r rhent.

Ni ellir derbyn fod y cwsmer yn medru cadw neu sicrhau tenantiaeth ond pan gredir fod swm y rhent yn rhesymol a bod y tenant yn medru'i fforddio tra bydd yn derbyn Budd-dal Tai.

Os bydd diffyg yn parhau rhwng y rhent sy'n daladwy a'r Budd-dal Tai, a bod y cwsmer yn methu â'i dalu, yna mae'n annhebygol y byddant yn medru talu'r rhent yn gyson a byddant mewn perygl o gael eu troi allan. Mewn amgylchiadau felly, ni fydd y cwsmer yn medru cynnal y denantiaeth ac felly **ni fydd y trefniadau diogelu hyn yn berthnasol.**

Unwaith y bydd taliadau'n syth i'r landlord yn dechrau o dan y trefniadau diogelu, y bwriad yw parhau â hynny hyd oni ddaw'r rhent yn anfforddiadwy. Os penderfynir talu Budd-dal Tai'n syth i'r landlord, byddwn yn hysbysu'r tenant a'r landlord o hynny. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r cwsmer a'r landlord gadw mewn cof bod y taliadau uniongyrchol yn amodol ar gadw'r rhent yn fforddiadwy tra bydd y cwsmer yn byw yn yr eiddo. Gallai unrhyw gynnydd yn y rhent effeithio ar y penderfyniad i dalu'r budd-dal yn syth i'r landlord.

Bydd angen i'r Cyngor weld tystiolaeth fod y rhent yn arfer bod yn uwch, a chael cadarnhad ei fod wedi'i ostwng.

8. POLISI AR GYFER DYFARNU TALIADAU DEWISOL TAI

8.1 CEFNDIR

Mae Taliadau Dewisol Tai yn darparu cymorth ariannol ychwanegol i **gwsmeriaid sy'n derbyn Budd-dal Tai neu elfen o'r Credyd Cynhwysol i dalu Costau Tai gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.** Mae hwn yn dod ar ben unrhyw Fudd-dal Lles arall, ac mae'n rhaid bod y cwsmeriaid mewn angen dirfawr er mwyn bod yn gymwys i'w dderbyn. Fel arfer, mae costau tai'n golygu'r rhent sydd i'w dalu, ond maent hefyd yn gallu cynnwys – Rhent ymlaen llaw

Blaendal a chostau crynswth eraill sy'n gysylltiedig ag angen o ran tai, megis costau symud allan neu wirio credyd at ddibenion asiantaethau gosod tai.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n rheoli Taliadau Dewisol Tai drwy Reoliadau Cymorth Ariannol Dewisol 2001. Diwygiwyd y Rheoliadau hynny gan Reoliadau Diddymu Budd-daliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Canlyniadol) 2013, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013, a Rheoliadau'r Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Atodol, Cysylltiedig ac Amrywiol Canlyniadol) 2013 (Offeryn Statudol 2013/630) a ddaeth i rym ar 29 Ebrill 2013.

Bob blwyddyn ariannol mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n darparu swm penodol â therfyn arian parod i bob Awdurdod Lleol ar gyfer Taliadau Dewisol Tai (Cyfraniad y Llywodraeth).

Yn 2017/18 derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfanswm o £230,668 mewn grantiau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cafodd 532 o aelwydydd gymorth drwy gyfanswm o £232,885.

Prif nodweddion y cynllun yw:

- Nad oes gan ymgeisydd hawl statudol i dderbyn taliad.
- Mae'r swm y gall Awdurdod ei dalu mewn unrhyw flwyddyn ariannol yn destun terfyn arian parod a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Gall Taliad Dewisol Tai dalu amryw fathau o ddiffygion o ran Costau Tai –

- gostyngiad mewn Budd-dal Tai neu'r elfen Costau Tai o'r Credyd Cynhwysol, lle mae'r Uchafswm Budd-daliadau'n berthnasol
- gostyngiad mewn cymhorthdal ystafell sbâr (yn ôl y meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol) yn y Budd-dal Tai neu'r elfen Costau Tai o'r Credyd Cynhwysol
- gostyngiad mewn Budd-dal Tai neu'r elfen Costau Tai o'r Credyd Cynhwysol o ganlyniad i gyfyngiadau ar Lwfans Tai Lleol
- Cyfyngiadau Swyddogion Rhent megis rhent cyfeirio lleol neu gyfradd llety a rennir
- didyniadau ar gyfer annibynyddion mewn Budd-dal Tai neu'r elfen Costau Tai o'r Credyd Cynhwysol
- talu diffyg rhent er mwyn atal aelwyd rhag mynd yn ddigartref wrth i'r Adran Tai ymchwilio i ddewisiadau eraill
- gostyngiadau incwm graddedig
- cymorth gyda rhent ymlaen llaw/blaendal/costau symud allan neu rai costau untro penodol.

Ni ellir defnyddio'r Taliad Dewisol Tai i dalu'r Costau Tai canlynol gan fod y Rheoliadau'n eu heithrio:

- cyfrannu at dâl atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor
- taliadau gwasanaeth nad ydynt yn gymwys
- cynnydd mewn rhent oherwydd ôl-ddyledion
- rhai taliadau cosb penodol a gostyngiad mewn budd-dal (nodir y manylion am hyn yn y Ffurflen Gais am Daliad Dewisol Tai)
- diffyg yn sgil adennill Budd-dal Tai o'r swm y mae gan y cwsmer hawl iddo.

8.2 POLISI'R CYNGOR

Diben

Diben y polisi hwn yw nodi sut fydd y Cyngor yn gweithredu'r cynllun, ac esbonio pa ffactorau a gaiff eu hystyried wrth benderfynu a ellir gwneud Taliad Dewisol Tai. Y nod yw trin pawb sy'n hawlio'r taliad ar sail eu hanghenion wrth weinyddu'r cynllun. Dylid rhoi sylw i'r polisi ochr yn ochr â Llawlyfr yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Taliadau Dewisol Tai (a ddiwygiwyd ym mis Awst 2018) -

<https://www.gov.uk/government/publications/discretionary-housing-payments-guidance-manual>

8.3 HAWLIO TALIAD DEWISOL TAI

Mae'n rhaid hawlio Taliad Dewisol Tai gan ddefnyddio'r ffurflen y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i chymeradwyo a'i chyhoeddi. Os oes angen cymorth i lenwi'r ffurflen hawlio, gellir ffonio'r Swyddfa Budd-daliadau Tai ar 01492 576491 neu e-bostio hben.enquiries@conwy.gov.uk.

- I wneud cais am Daliad Dewisol Tai dylid cysylltu â'r Cyngor yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu'n electronig.

- Yna bydd y Cyngor yn rhoi ffurflen gais i'r ymgeisydd ei chwblhau. Er mwyn i'r cais fynd yn ei flaen, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddychwelyd y ffurflen ymhen un mis calendr wedi ei derbyn.
- Mae'n rhaid mai'r ymgeisydd neu gynrychiolydd sy'n gwneud cais am Daliad Dewisol Tai, ac mae'n rhaid bod yr ymgeisydd yn derbyn Budd-dal Tai neu Gostau Tai fel rhan o'r Credyd Cynhwysol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Gall y Cyngor ofyn am unrhyw dystiolaeth resymol i ategu cais am Daliad Dewisol Tai, a bydd yn gweithredu'n gyson ac yn rhesymol wrth wneud hynny. Bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw gais am dystiolaeth yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Dylai'r ymgeisydd neu gynrychiolydd ddarparu'r dystiolaeth ymhen un mis calendr.
- Gellir pwysu a mesur y dystiolaeth a'r wybodaeth a ddarperir wrth benderfynu'r cais am Fudd-dal Tai.
- Os nad yw'r ymgeisydd neu gynrychiolydd yn darparu'r dystiolaeth ofynnol, bydd y Cyngor yn ystyried y cais serch hynny. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor ddiystyru unrhyw ddatganiadau di-sail neu benderfynu'r cais ar sail y dystiolaeth arall sydd ar gael.
- Mewn rhai amgylchiadau gallai'r Cyngor wirio unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a ddarparwyd gan yr hawlydd neu gynrychiolydd drwy gysylltu â sefydliadau a phobl eraill.

8.4 PROSES BENDERFYNU CEISIADAU AM DALIADAU DEWISOL TAI A'R DREFN HYSBYSU/APELIO

Swyddogion Budd-daliadau profiadol yng Ngwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n penderfynu ceisiadau am Daliadau Dewisol Tai ar ran y Cyngor.

Hysbysu

Byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd neu gynrychiolydd o ganlyniad y cais am Daliad Dewisol Tai ymhen deg diwrnod wedi derbyn y cais, neu cyn gynted â phosib ar ôl hynny. Byddwn yn hysbysu:

- Pobl nad ydynt wedi llwyddo â'u ceisiadau, gan nodi'r rhesymau dros beidio â dyfarnu Taliad Dewisol Tai.

I'r rhai hynny sy'n llwyddo â'u ceisiadau byddwn yn nodi:

- Swm wythnosol y Taliad Dewisol Tai, neu'r cyfanswm dros gyfnod penodol;
- Dyddiad dechrau a therfynu'r Taliad;
- Sut gwneir y Taliad, pa bryd ac i bwy;
- Yr amgylchiadau sy'n sail i'r dyfarniad, unrhyw gamau y dylai'r cwsmer eu cymryd, ac unrhyw amodau a bennwyd;
- Dyletswydd yr ymgeisydd i roi gwybod am unrhyw newid mewn amgylchiadau a fedrai effeithio ar y Taliad.

Gordalu'r Taliad Dewisol Tai

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adennill unrhyw ordaliadau lle mae hynny wedi digwydd oherwydd –

- camgyfleu rhywbeth, neu fethu â datgelu ffaith berthnasol, boed hynny'n dwyllodrus neu beidio
- gwall a wnaethpwyd wrth benderfynu'r cais.

Ni cheir adennill gordaliadau o unrhyw Fudd-dal Tai cyfredol, oni bai fod y cwsmer yn gofyn i'r Cyngor adennill yr arian felly. Anfonir llythyr safonol i hysbysu'r hawlydd o'r gordaliad, gan nodi'r rheswm pam fod hynny wedi digwydd, y swm a ordalwyd, y cyfnod y mae'r gordaliad yn berthnasol iddo a'r hawl i apelio.

Y Drefn Apelio

Os cyfyd unrhyw anghydfod ynglŷn â phenderfyniad ynghylch Taliad Dewisol Tai, bydd swyddog gwahanol yn cynnal adolygiad annibynnol (Apêl) ac fel arfer bydd hwnnw'n swyddog uwch na'r un gwreiddiol. Bydd angen i'r ymgeisydd neu gynrychiolydd wneud cais ysgrifenedig am Apêl ymhen un mis calendr wedi derbyn hysbysiad o'r penderfyniad gwreiddiol.

Caiff yr Apêl ei ystyried ymhen deg diwrnod gwaith wedi derbyn y cais, neu cyn gynted â phosib ar ôl hynny, ac fe hysbysir yr ymgeisydd neu gynrychiolydd o'r canlyniad yn ysgrifenedig. Ni fydd unrhyw hawl pellach i apelio wedi hyn.

8.5 CYFNODAU DYFARNU/CEISIADAU EILDRO/ÔL-DDYDDIO

Bydd y Cyngor yn penderfynu am ba hyd y dylid dyfarnu Taliad Dewisol Tai, ar sail amgylchiadau aelwyd yr ymgeisydd. Lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio'r Taliad Dewisol Tai i roi cymorth ariannol byrdymor.

- Y cyfnod byrraf y gall y Cyngor ddyfarnu Taliad Dewisol Tai ar ei gyfer yw un diwrnod. Gallai hwn fod ar ffurf cyfandaliad ar gyfer rhent ymlaen llaw/blaendal neu gostau eraill.
- Gellir gwneud Taliad Dewisol Tai dros gyfnod o ychydig wythnosau, ond fel arfer fe'i telir dros gyfnodau rhwng 13 a 26 o wythnosau, gan ddibynnu ar amgylchiadau aelwyd yr ymgeisydd.
- Gellid dyfarnu Taliad Dewisol Tai wythnosol dros fwy na 12 mis, er enghraifft os oes eiddo wedi'i addasu'n arbennig yn ôl anghenion yr unigolyn.
- Wrth bennu hyd y dyfarniad, rhoddir sylw i amgylchiadau ariannol a chymdeithasol yr ymgeisydd ac unrhyw anghenion iechyd/meddygol, ynghyd ag amgylchiadau ac anghenion partner yr ymgeisydd, unrhyw ddibynyddion ac unrhyw un arall sy'n byw yng nghartref yr ymgeisydd.
- Caiff **ceisiadau eildro** eu hystyried pan ddaw'r dyfarniad gwreiddiol i ben, a bydd gofyn i'r ymgeisydd neu gynrychiolydd gwblhau cais o'r newydd os dymunant wneud hynny.
Bydd y Cyngor yn pwysu a mesur pob cais eildro yn ôl ei rinweddau, gan ystyried a yw'r ymgeisydd a/neu eu partner wedi gwneud pob ymdrech resymol i wella eu sefyllfa, neu a yw'r amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.
- **Ôl-ddyddio** Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gais rhesymol i ôl-ddyddio Taliad Dewisol Tai, ond fel arfer ni ellir gwneud hynny ond yn yr un flwyddyn ariannol. Dylid gwneud unrhyw gais yn ysgrifenedig gan roi rhesymau pendant pam na wnaethpwyd y cais yn gynt.

8.6 PENDERFYNU A DDYLID DYFARNU TALIAD DEWISOL TAI NEU BEIDIO

Mae'r dull o weinyddu Taliadau Dewisol Tai yng Nghymru yn fwy cyson erbyn hyn, wedi i Lywodraeth Cymru ariannu prosiect i ddatblygu Fframwaith a system bwyntiau a ddefnyddir bellach wrth gynnal yr asesiad. Y nod yw sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn â thaliadau dewisol yn fwy systematig, cyson a thryloyw. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r drefn drin pawb yr un fath. Mae'r rhyddid i benderfynu yn dal yn rhan annatod o'r cynllun.

Mae Taliadau Dewisol Tai'n dod o Grant gan yr Adran Gwaith a Phensiynau â therfyn arian parod, ac nid yw'n bosib bob amser i ddyfarnu taliad lle mae diffyg o ran costau tai.

Y ffactorau allweddol a gaiff eu hystyried yw –

- Amgylchiadau ariannol yr aelwyd
- Y Grŵp Blaenoriaeth y mae'r aelwyd yn perthyn iddo – **gweler Atodiad 1 ar dudalen 18-20 Atodiad 2 ar dudalen 21.**
- I ba raddau y gall aelodau o'r aelwyd yn medru rheoli eu sefyllfa ac yn fodlon gwneud, ac a fyddai'n afresymol disgwyl iddynt wneud mwy.
- Y goblygiadau ariannol ehangach os na ddyfernir Taliad.

Asesiad Ariannol

Gwneir asesiad ariannol o bob cais am Taliad Dewisol Tai sy'n bodloni'r meini prawf, drwy gymharu'r incwm a'r gwariant a nodir ar y ffurflen gais. Caiff pob incwm ei ystyried (ac eithrio Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol) ynghyd ag unrhyw gynilion a chyfalaf. Caiff yr holl wariant ei ystyried hefyd.

Os oes perthynas neu ffrind sy'n oedolyn yn byw gyda'r ymgeisydd (annibynnydd) bydd angen ystyried unrhyw gyfraniad mae'n ei wneud at incwm yr ymgeisydd. Ceir mwy o fanylion am y modd y caiff cyfraniadau annibynnyddion eu hystyried wrth wneud yr asesiad ariannol yn **Atodiad 3 ar dudalen 22.**

Os yw incwm yr aelwyd yn fwy na'r gwariant, yna gwrthodir y cais am Taliad Dewisol Tai ac fe hysbysir yr ymgeisydd neu gynrychiolydd o hynny. Os yw incwm yr aelwyd yn llai na'r gwariant, yna bydd y cais yn mynd ymlaen i'r cam nesaf.

Grwpiau â Blaenoriaeth

Ar ôl cwblhau'r Asesiad Ariannol, y cam nesaf yw penderfynu pa flaenoriaeth a ddylid ei roi i'r cais ar sail amgylchiadau'r aelwyd, a dyfarnu pwyntiau ar sail hynny.

Mae yno bump o grwpiau, yn mynd o A i E yn nhrefn blaenoriaeth. Gweler **ATODIAD 1** sy'n nodi'r categorïau ymhob grŵp.

Gallu i reoli'r sefyllfa

Wedyn rhoddir sylw i ba gamau y mae'r ymgeisydd a/neu eu partner yn eu cymryd eu hunain i wella'r sefyllfa, a dyfernir pwyntiau ar sail hynny. Er enghraifft, rhoddir mwy o bwyntiau i bobl sy'n wynebu gostyngiad mewn cymhorthdal ystafell sbâr (meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol) sydd wedi cofrestru ar gyfer tŷ llai o faint ond heb gael cynnig un eto.

Mewn rhai sefyllfaoedd, fodd bynnag, gallai fod angen Taliad Dewisol Tai am gyfnod hwy os nad yw'n realistig i'r aelwyd fedru gwella'r sefyllfa drwy weithredu eu hunain. Er enghraifft, rhoddir mwy o bwyntiau os oes aelod o'r aelwyd ag anabledau dwys ac yn methu â gweithio, a bod yr aelwyd eisoes yn cadw trefn ar ei chyllideb mor effeithiol â phosib.

Osgoi costau pellach a chaledi

Gellid dyfarnu Taliad Dewisol Tai er mwyn atal mwy o galedi, megis troi rhywun allan o'u tŷ, ac arbed costau cysylltiedig i'r Cyngor wrth ymdrin â digartrefedd.

Amodau

Gwneir y rhan helaeth o daliadau â'r flaenoriaeth fwyaf yn ddiamod, naill gan nad yw'n debygol y bydd yr amgylchiadau'n newid yn y tymor byr, neu oherwydd bod yr aelwyd eisoes yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gadw rheolaeth ar y sefyllfa.

Bydd pob dyfarniad arall yn destun rhyw fath o amodau ynglŷn â datrys y diffyg o ran costau tai heb fod angen Taliad Dewisol Tai.

8.7 TALIADAU DEWISOL TAI AR GYFER COSTAU UNTRO FEL TALU RHENT YMLAEN LLAW/BLAENDAL/COSTAU SYMUD ALLAN AC ERAILL

Ni ddylid gwneud cais am Daliad Dewisol Tai ar gyfer costau symud tŷ neu gostau untro eraill ond os nad yw'r arian ar gael o ryw ffynhonnell arall, fel cynilion, benthyca gan berthnasau, Undeb Credyd, benthychiad cyllidebu, rhent ymlaen llaw/blaendal y disgwylir ei gael yn ôl wedi tenantiaeth flaenorol ac yn y blaen.

Mae'n rhaid bod yr ymgeisydd yn gymwys i dderbyn Budd-dal Tai neu Gostau Tai fel rhan o'r Credyd Cynhwysol yn y man lle gwneir y dyfarniad o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy.

Asesiad Ariannol

Gwneir asesiad ariannol i weld a oedd hi'n rhesymol i'r ymgeisydd/partner fod wedi cynilo ar gyfer rhent ymlaen llaw/blaendal/costau symud tŷ neu gostau eraill, ac oes felly gwrthodir y cais am Daliad Dewisol Tai.

Grwpiau â Blaenoriaeth

Ar ôl cwblhau'r Asesiad Ariannol, y cam nesaf yw penderfynu pa flaenoriaeth a ddylid ei roi i'r cais ar sail amgylchiadau'r aelwyd, a dyfarnu pwyntiau ar sail hynny.

Mae yno bump o grwpiau, yn mynd o A i E yn nhrefn blaenoriaeth. Gweler **ATODIAD 2** sy'n nodi'r categorïau ymhob grŵp.

Os yw'r ymgeisydd yn llwyddo â'r cais am Daliad Dewisol Tai ar gyfer rhent ymlaen llaw/blaendal/costau symud tŷ, ni fyddant fel arfer yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw Daliadau pellach, a dylai'r llety newydd fod yn fforddiadwy.

Bydd angen darparu manylion cyswllt y darpar landlord neu asiant, fel y gall y Cyngor geisio dwyn perswâd arnynt i hepgor rhent ymlaen llaw neu flaendal yn gyfnewid am dderbyn y Budd-dal Tai yn uniongyrchol, ar yr amod fod y rhent yn fforddiadwy (yn unol â chyfradd y Lwfans Tai Lleol).

O ran costau symud tŷ, mae gofyn cael amcangyfrif rhesymol.

8.8 CASGLIAD

Nid yw'r Fframwaith y mae llawer o Awdurdodau yng Nghymru'n ei defnyddio wedi'i greu er mwyn llyffetheirio'r Awdurdodau hynny o ran eu rhyddid i benderfynu ynghylch Taliadau Dewisol Tai. Cynllun dewisol ydyw, ac mae'n sicr y bydd yno achosion lle mae'r amgylchiadau eithriadol yn peri i'r sawl sy'n penderfynu gredu bod cyfiawnhad dros ddyfarnu Taliad Dewisol Tai. Mantais cynllun dewisol fel hwn, ni waeth pa fframwaith a ddefnyddir, yw bod modd dyfarnu taliadau a bod achos teilwng dros wneud hynny.

Mae'r Fframwaith yng Nghymru'n gosod strwythur o ran penderfynu pwy ddylai dderbyn Taliadau Dewisol Tai. Ei nod yw sicrhau rhywfaint o degwch a chysondeb,

boed hynny o fewn Mwrdeistref Sirol Conwy neu ymysg y Cynghorau hynny yng Nghymru sy'n gweithio'r un fath.

Helpwch ni i'ch helpu chi

Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau gydymffurfio â'r gyfraith wrth wneud llawer o'i waith, ac felly nid yw'n hawdd bob amser i fodloni holl anghenion y cwsmeriaid. Serch hynny, fe wnawn bob ymdrech i geisio bodloni'r rhan helaeth o'r anghenion hynny.

Os oes gennych chi unrhyw syniadau i wella ansawdd y gwasanaeth, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Gwasanaethau Cwsmeriaid Budd-daliadau – 01492 576491
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Coed Pella
Conway Road,
BAE COLWYN,
LL29 7AZ.

TALIADAU DEWISOL TAI

ATODIAD 1

GRWPIAU Â BLAENORIAETH – TALIADAU PARHAUS

GRŴP A

Aelwydydd nad yw trefniadau eraill yn ddewis realistig ar eu cyfer.

(Blaenoriaeth fwyaf – amgylchiadau eithriadol lle byddai'n anodd symud tŷ neu fod rhwystrau sylweddol yn atal yr ymgeisydd neu bartner rhag gwella ei sefyllfa ariannol)

- Aelwydydd y mae'r rheolau tan-feddiannaeth yn berthnasol iddynt, lle mae yno rywun ag anabledd yn byw, ac oherwydd hynny bod yr eiddo wedi'i addasu'n sylweddol ar eu cyfer, neu fod yr eiddo'n arbennig o addas i'w hanghenion.
- Aelwydydd y mae'r rheolau tan-feddiannaeth yn berthnasol iddynt, lle mae oedran y plentyn/plant yn golygu y bydd ganddynt nifer briodol o ystafelloedd gwely maes o law.
- Aelwydydd y mae'r rheolau tan-feddiannaeth yn berthnasol iddynt, a phlentyn neu blant yn byw yno.
- Aelwydydd y mae'r rheolau tan-feddiannaeth yn berthnasol iddynt, lle byddant yn eithriadig o'r rheolau maes o law am eu bod yn agos at oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- Pobl sydd wedi dioddef trais domestig, neu sydd wedi symud oherwydd bygythiad o drais domestig yn rhywle arall.
- Aelwydydd sydd wedi symud am fod eu plant yn cael eu bwlio, neu mewn perygl o fod dan bwysau gan gyfoedion i ymuno â gang sy'n troseddu, neu gael eu hannog i gamddefnyddio sylweddau.
- Aelwydydd y mae eu hincwm wedi gostwng oherwydd yr uchafswm budd-daliadau, lle mae yno dri o blant neu fwy yn byw ac o leiaf un ohonynt o dan bump oed, a lle mae'r penteulu'n riant sengl.
- Aelwydydd hŷn yn y sector rhentu preifat, lle mae'r rhent wedi cynyddu uwchlaw lefel y Lwfans Tai Lleol.
- Aelwydydd lle bu'n rhaid mynd â'r plant ymaith er mwyn eu diogelwch a'u rhoi mewn gofal maeth, lle ceir tystiolaeth y bydd y plant yn dychwelyd maes o law.
- Aelwydydd lle mae rheswm meddygol pwysig dros gael ystafell ychwanegol, a bod meddyg wedi cadarnhau hynny'n ffurfiol.

Er enghraifft, lle na fedr partneriaid rannu ystafell wely gan fod cyflwr meddygol yn eu hatal rhag gwneud.

- Ymgeiswyr a fyddai'n mynd yn groes i orchymyn llys pe byddant yn symud i dŷ llai.

- Aelwydydd lle mae rhywun yn feichiog, gan gynnwys y rhai hynny sy'n byw mewn llety a rennir neu sydd wedi cael gostyngiad yn eu hincwm oherwydd y rheolau tan-feddiannaeth (sydd i'w adolygu wedi geni'r baban).
- Ymgeiswyr sy'n aros am ddyfarniad llys ynglŷn â gwarchodaeth plant.
- Ymgeiswyr â threfniadau gwarchodaeth plant ar y cyd, ond heb fod yn derbyn Budd-dal Plant ar gyfer y plant dan sylw.

GRŴP B

Aelwydydd lle mae'r ymgeisydd a/neu bartner yn cynnal aelodau eraill ar yr aelwyd yn ariannol, neu sy'n cael eu cynnal eu hunain, lle byddai symud yn peryglu'r gynhaliaeth honno. Aelwydydd y mae'r rheolau tan-feddiannaeth yn berthnasol iddynt, heb unrhyw blant dibynnol yn byw yno.

Aelwydydd y mae'n bosib nad yw trefniadau eraill yn ddewis realistig ar eu cyfer. (yr ail grŵp yn nhrefn blaenoriaeth – pe byddai symud yn cael effaith negyddol ar y sefyllfa)

- Aelwydydd y mae'r rheolau tan-feddiannaeth yn berthnasol iddynt, lle mae gofawr maeth yn byw a bod eu hamgylchiadau'n golygu nad ydynt yn eithriedig.
- Aelwydydd y mae'r rheolau tan-feddiannaeth yn berthnasol iddynt, heb unrhyw blentyn neu blant yn byw yno.
- Teuluoedd y mae'r gwasanaethau cymdeithasol wrthi'n gweithio â hwy, er enghraifft oedolion dibynnol iawn, plant dan fygythiad, neu fod y teulu'n cymryd rhan mewn prosiect ymyrraeth.
- Pobl sy'n gofalu am aelod o'r teulu'n llawn amser, ac o ganlyniad i hynny'n wynebu trafferthion neu rwystrau ychwanegol rhag cael gwaith.
- Aelwydydd y mae eu hincwm wedi gostwng oherwydd yr uchafswm budd-daliadau, lle mae yno ddau o blant neu fwy yn byw ac o leiaf un ohonynt o dan bump oed, a lle mae'r penteulu'n rhiant sengl.
- Aelwydydd â phobl ifanc yn byw arnynt sydd wedi gadael gofal awdurdod lleol.
- Pobl ddigartref sy'n cael cymorth i setlo yn y gymuned.
- Aelwydydd lle mae tystiolaeth i ddangos na fedr plant rannu ystafell, a bod cais wedi'i wneud am Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol, neu os gwrthodwyd cais o'r fath, bod disgwyl canlyniad apêl maes o law.
- Aelwydydd sengl y mae'r gwasanaethau wedi cael llety iddynt ar ôl cwblhau cyfnod o adsefydlu wedi bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol ac ati, lle byddai byw mewn llety o faint priodol yn creu perygl arwyddocaol o fynd yn gaeth eto.
- Gweithwyr sifft a fyddai mewn perygl o golli eu swyddi pe byddent yn symud i fyw.
- Aelwydydd â babanod yn byw arnynt (o dan chwe mis oed).

GRŴP C

Aelwydydd lle mae yno rwystrau byrdymor eithriadol, boed y rheiny'n bersonol neu'n gymdeithasol, sy'n eu hatal rhag symud.

(Gellid mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy gael mwy o gymorth gan y Cyngor neu ddarparwr yn y trydydd sector)

- Pensiynwyr sydd wedi byw yn yr ardal ers amser maith, ac a fyddai'n ei chael yn anodd meithrin cysylltiadau cymorth mewn ardal newydd.
- Aelwydydd sy'n byw mewn ardal wledig, ac oherwydd eu bod yn gofalu neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau tebyg, a fyddai'n ei chael hi'n arbennig o anodd i symud, neu gael gwaith yn lleol.
- Aelwydydd y mae eu hincwm wedi gostwng oherwydd yr uchafswm budd-daliadau, lle mae dau o blant neu fwy yn byw yno.
- Aelwydydd sydd â baban newydd llai na blwydd oed yn byw yno.
- Aelwydydd lle mae gan yr ymgeisydd neu bartner blant a ddynodwyd at ddibenion Budd-dal Tai fel eu bod yn byw ag oedolyn arall (sy'n derbyn Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn dan sylw).
- Pan nad yw maint ystafell wely sengl ychwanegol yn bodloni'r gofynion a bennir yn Adran 326 o Ddeddf Tai 1985, neu fod neb erioed wedi defnyddio'r ystafell wely ychwanegol i gysgu ynddi, ond yn hytrach fel stydi neu ystafell fwyta.

GRŴP D

Aelwydydd lle byddai symud yn effeithio ar eu gallu i fod mewn gwaith

(Lle mae gwaith/gwaith ychwanegol yn cynnig y cyfle gorau i'r ymgeisydd neu bartner wella eu sefyllfa, a bod perygl y byddai symud yn niweidio eu cyfleoedd o gael yn hynny o beth)

- Pobl sy'n gweithio mewn swydd dros dro lle gallai symud effeithio ar eu gallu i sicrhau gwaith mwy parhaol.
- Pobl y mae arnynt angen byw'n agos at eu gwaith am eu bod yn gweithio oriau anghymdeithasol neu sifftiau hollt.
- Pobl y byddai symud yn cynyddu eu costau teithio'n sylweddol, i'r fath raddau fel na fyddai modd iddynt gadw'r swydd.

GRŴP E

Aelwydydd â diffyg yn eu rhent ond a fyddai'n elwa ar gymorth ariannol byrdymor

Aelwydydd nad ydynt yn perthyn i Grwpiau A hyd D, sydd â diffyg yn eu rhent oherwydd diwygio lles, ac arnynt angen cadw eu llety presennol wrth chwilio am rywle arall sy'n addas.

GRWPIAU Â BLAENORIAETH AR GYFER COSTAU UNTRO FEL TALU RHENT YMLAEN LLAW/BLAENDAL/COSTAU SYMUD ALLAN AC ERAILL

GRŴP 1

Aelwydydd lle mae dyfarnu Taliad Dewisol Tai'n hwyluso trefniadau gwahanol (Blaenoriaeth fwyaf)

- I helpu i dalu am flaendal/rhent ymlaen llaw/costau symud ar gyfer tenantiaeth a fyddai'n golygu nad yw'r rheolau tan-feddiannaeth, yr uchafswm budd-daliadau na chyfyngiadau'r Lwfans Tai Lleol yn berthnasol mwyach, a bod y llety'n fwy fforddiadwy i'r ymgeisydd o'r herwydd.
- I helpu i dalu am flaendal/rhent ymlaen llaw/costau symud ar gyfer tenantiaeth lle mae aelod o'r Tîm Cyngor ar Dai wedi cefnogi cais am Daliad Dewisol Tai oherwydd posibilrwydd o ddigartrefedd.
- I helpu cwsmeriaid sy'n symud o/i lety â chymorth gyda chostau symud yn y sector cymdeithasol, a rhent ymlaen llaw/blaendal/costau symud yn y sector preifat.
- I helpu cwsmeriaid sy'n byw mewn llety sector preifat ag un ystafell wely ac arnynt angen rhywle mwy o faint yn y sector preifat pan gaiff plentyn ei eni.

GRŴP 2

Aelwydydd lle mae angen cymorth ar yr ymgeisydd a/neu bartner i wella eu gallu i weithio.

Yr ail grŵp yn nhrefn blaenoriaeth – lle mae angen cymorth ar aelodau o'r teulu i gael gwaith neu waith ychwanegol er mwyn gwella eu sefyllfa, lle byddai hynny naill ai'n golygu na fyddent yn medru fforddio'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai/Costau Tai drwy'r Credyd Cynhwysol, neu fod modd iddynt symud i ardal arall am waith

- Cymorth gyda theithio

GRŴP 3

Aelwydydd lle mae'n bosib derbyn lojar neu rywun arall a fedrai gyfrannu at gostau tai.

(Mae'r grŵp yma'n cynnwys pobl y mae arnynt angen buddsoddi yn eu cartrefi er mwyn gwneud lle ar gyfer lojar neu is-denantiaid a fedrai gyfrannu at y rhent)

- Cymorth ariannol ar gyfer addurno neu addasu'r cartref i wneud lle ar gyfer lojar.
- Cymorth ariannol tuag at gostau dodrefn a gwelyau.

GRŴP 4

Aelwydydd sy'n ceisio gwella eu sefyllfa ond heb o reidrwydd fod mewn diffyg o ran eu rhent.

- Talu costau blaendal/rhent ymlaen llaw ar gyfer tenantiaeth, neu gostau symud mewn unrhyw amgylchiadau nad yw Grŵp 1 yn eu cynnwys.

GRŴP 5

Unrhyw amgylchiadau eraill sy'n rhesymol.

ANNIBYNYDDION

Disgwylir bod annibynyddion yn cyfrannu at incwm yr aelwyd ac y cymerir hynny i ystyriaeth wrth asesu incwm yr aelwyd at ddibenion y Taliad Dewisol Tai. Derbynnir, fodd bynnag, na fydd hynny'n bosib bob amser, yn enwedig felly pan mae'r annibynydd dan sylw'n perthyn i un o'r categorïau eithriedig at ddibenion Budd-dal Tai.

Fel arfer, argymhellir y dylai incwm yr aelwyd gynnwys naill ai'r swm y mae'r annibynydd yn ei gyfrannu go iawn, neu'r didyniad perthnasol o'r Budd-dal Tai ar gyfer annibynydd, p'un bynnag sydd fwyaf.

Ond gallai fod eithriadau i hyn:

- Pan mae'r annibynyddion yn eithriedig at ddibenion Budd-dal Tai, dylid ystyried unrhyw gyfraniad y gellir ei wneud go iawn.
- Os yw'r annibynydd yn perthyn i'r categori uchaf o ran y didyniad, byddai disgwyl iddynt gael digon o incwm i gyfrannu mwy at incwm yr aelwyd, gan dalu unrhyw ddiffyg yn y rhent o ganlyniad. Gan amlaf mewn achosion felly, ni fyddai'r cais am Taliad Dewisol yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, os oes sail resymol i'r annibynydd fethu â thalu unrhyw ddiffyg (er enghraifft, costau personol uchel nad oes modd eu hosgoi, dyledion, cynhaliaeth ac ati), byddai'r rheol gyffredinol yn berthnasol.
- Mewn rhai amgylchiadau ni fydd yr annibynydd yn medru cyfrannu swm sy'n gyfwerth â'r symiau annibynyddion o ran y Budd-dal Tai. Os yw sefyllfa'r annibynydd yn golygu bod y swm mae'n ei gyfrannu yn rhesymol, dylid ystyried y swm maent yn medru'i gyfrannu go iawn.

ASESU INCWM A GWARIANT ANNIBYNYDDION**INCWM**

Bydd angen i'r ymgeisydd hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'r gwir swm y mae'r annibynydd yn ei gyfrannu at incwm yr aelwyd, ynghyd ag incwm wythnosol gros yr annibynydd.

Wrth gyfrifo incwm yr aelwyd bydd yr asesydd yn cynnwys naill ai'r gwir swm y mae'r annibynydd yn ei gyfrannu, neu swm sy'n gyfwerth â'r didyniad perthnasol o'r Budd-dal Tai ar gyfer yr annibynydd hwnnw, p'un bynnag sydd fwyaf.

Os defnyddir swm sy'n gyfwerth â'r didyniad o'r Budd-dal Tai ar gyfer yr annibynydd wrth gyfrifo incwm yr aelwyd, bydd angen hysbysu'r ymgeisydd y dylai'r annibynydd fod yn cyfrannu at hyn. Os na fedr yr annibynydd gyfrannu'r swm dan sylw, dylai'r ymgeisydd hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Os yw incwm gros yr annibynydd yn golygu eu bod yn y categori uchaf ar gyfer didyniad annibynydd at ddibenion Budd-dal Tai, dylid eu hysbysu fod disgwyl i'r annibynydd gyfrannu mwy er mwyn talu'r diffyg o ran y rhent. Os yw'r amgylchiadau'n golygu nad yw hynny'n bosib, bydd arnynt angen hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Pan hysbysir Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy na fedr annibynydd dalu'r cyfraniad a ddisgwylir ohonynt, bydd y Cyngor yn ymchwilio'n fanylach i sefyllfa ariannol yr annibynydd cyn penderfynu a yw'r annibynydd yn cyfrannu swm rhesymol gan ystyried yr amgylchiadau.

Dylid cynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r annibynydd (er enghraifft, golchi dillad, bwyd, gwresogi ac ati) yng ngwariant yr aelwyd yn y ffurflen gais am Taliad Dewisol Tai.